

Y CYFANSODDIAD ADRAN 13 – TABL 3

SWYDDOGAETHAU SY’N CAEL EU RHANNU RHWNG Y CYNGOR A’R BWRDD GWEITHREDOL

Rhestrir yn y tabl isod swyddogaethau penodol yn y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007 sy’n cael eu rhannu rhwng y Cyngor a’r Gweithrediaeth yn dibynnu ar yr amgylchiadau yn unol â Rheoliadau 5 a 6 ac Atodlenni 3 a 4.

Swyddogaeth	Rôl/Cyfrifoldeb y Bwrdd Gweithredu (a Swyddogion ble mae cyfrifoldeb wedi’i ddirprwyo iddynt)	Rôl/Cyfrifoldeb y Cyngor
<p>1. Llunio’r cynlluniau a’r strategaethau canlynol:</p> <p>Cynllun y Cyngor (Cynllun Gwelliant)</p> <p>Strategaeth Iechyd a Lles (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus)</p> <p>Cynllun Trafniadaeth Lleol</p> <p>Cynllunioau ac addasiadau sydd gyda’l gilydd yn cynnwys y Cynllun Datblygu</p> <p>Cynllun Iaith Gymraeg</p> <p>Cynllun Cyfiawnder Ieuencid</p> <p>Cynllun Gwella Hawliau Tramwy</p> <p>Strategaeth Tai</p> <p>2. Ffurio cynllun neu strategaeth ar gyfer rheoli benthyciadau neu Wariant cyfalaf y Cyngor (sy’n cynnwys Strategaeth Rheoli’r Trysorlys a’r Polisi Rheoli’r Trysorlys).</p> <p>3. Llunio neu baratoi cynlluniau neu strategaethau (statudol neu anstatudol), heblaw’r rhai a restrir ym Mharagraffau 1 neu 2 uchod, lle mae’r Cyngor yn penderfynu y dylai’r penderfyniad ynghylch mabwysiadu neu gymeradwyo cynlluniau neu strategaethau o’r fath gael ei wneud ganddynt hwy.</p>	<p>Mewn perthynas â swyddogaethau 1, 2 a 3:-</p> <p>Llunio neu baratoi’r cynlluniau a strategaethau y rhestrir ac y cyfeirir atynt.</p> <p>A</p> <p>Diwygio, addasu, amrywio neu ddirymu cynlluniau neu strategaethau o’r fath (boed wedi’u cymeradwyo neu wedi’u mabwysiadu), dim ond pan fydd diwygiad o’r fath ac ati yn:</p> <p>(i) ofynnol er mwyn rhoi effaith i ofynion Llywodraeth Cymru neu Weinidog o hynny mewn perthynas â chynllun neu strategaeth a gyflwynir i’w cymeradwyo, neu ag unrhyw ran a gyflwynir felly, neu</p> <p>(ii) cael ei awdurdodi gan benderfyniad a wnaed gan y Cyngor wrth wneud y trefniadau neu gymeradwyo neu fabwysiadu’r cynllun neu’r strategaeth, fel y bo’n briodol.</p> <p><u>Dalier Sylw.</u> Gall y Bwrdd Gweithredol gymeradwyo manylion mewn perthynas â chynlluniau a strategaethau o’r fath, a diwygiadau iddynt, cyn belled nad yw manylion a diwygiadau o’r fath yn groes i’r cynllun / strategaeth fel y mabwysiadwyd gan y Cyngor, neu’n mynd yn groes iddynt.</p> <p>Mae’r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am mabwysiadu y Rhaglen Gyfalaf a’r Adroddiad Blynyddol.</p>	<p>Mewn perthynas â swyddogaethau 1, 2 a 3:-</p> <p>(1) Rhoi cyfarwyddiadau sy’n ei gwneud yn ofynnol i’r Bwrdd Gweithredol ailystyried cynlluniau neu strategaethau Drafft o’r fath, sy’n cael eu cyflwyno gan y Bwrdd Gweithredol i’w hystyried gan y Cyngor.</p> <p>(2) Diwygio cynlluniau neu strategaethau drafft o’r fath a gyflwynir gan y Bwrdd Gweithredol i’w hystyried gan y Cyngor.</p> <p>(3) Cymeradwyaeth ar gyfer cyflwyno i Lywodraeth Cymru, neu unrhyw Weinidog o hynny, o gynlluniau neu strategaethau o’r fath (boed ar ffurf drafft ai peidio) y mae’n ofynnol cyflwyno unrhyw ran.</p> <p>(4) mabwysiadu (gyda neu heb addasiad) cynlluniau neu strategaethau o’r fath.</p> <p>A</p> <p>Diwygio, addasu, amrywio neu ddiddymu unrhyw gynllun neu strategaeth o’r fath, i unrhyw raddau ar wahân i’r hyn a nodir yn y golofn flaenorol fel cyfrifoldeb y Bwrdd Gweithredol.</p>

Swyddogaeth	Rôl/Cyfrifoldeb y Bwrdd Gweithredu (a Swyddogion ble mae cyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo iddynt)	Rôl/Cyfrifoldeb y Cyngor
<p>4 Mabwysiadu neu gymeradwyo cynllun neu strategaeth (boed yn statudol neu'n anstatudol) heblaw cynllun neu strategaeth ar gyfer rheoli benthyciadau neu wariant cyfalaf yr Awdurdod a'r rhai a restrir ym mharagraff 1 o'r golofn hon.</p>	<p>I wneud y penderfyniad yn yr holl amgylchiadau ac eithrio pan fydd y Cyngor yn penderfynu y dylai'r penderfyniad gael ei gymryd ganddynt hwy.</p>	<p>I wneud y penderfyniad pan fydd y Cyngor yn penderfynu y dylai'r penderfyniad a ddylai'r cynllun neu'r strategaeth gael ei mabwysiadu neu ei chymeradwyo, gael ei wneud ganddynt hwy.</p>
<p>5 Penderfynu unrhyw fater wrth gyflawni swyddogaeth sy'n -</p> <p>(a) gyfrifoldeb y Bwrdd Gweithredol; ac</p> <p>(b) yn ymwneud â chyllideb y Cyngor, neu eu benthyciadau neu wariant cyfalaf.</p>	<p>I wneud y penderfyniad pan fydd penderfyniad o fewn cyllideb y Cyngor a'i gynlluniau a strategaethau mabwysiedig sy'n ymwneud â benthyciadau neu wariant cyfalaf (h.y. ar wahân i'r amgylchiadau a nodir yn y golofn nesaf). Fodd bynnag, gall y Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniadau ar faterion sydd y tu allan i strategaeth y gyllideb pan fo angen y penderfyniad fel mater o frys, cyn belled â'i fod yn cael ei wneud yn unol â Rheolau Fframwaith y Gyllideb a Pholisi, a nodir yn Adran 4 y Cyfansoddiad hwn.</p> <p><u>Dalier Sylw.</u> Bydd penderfyniad o fewn cyllideb y Cyngor os yw'n cael ei ddarparu ar ei gyfer yn llyfr cyllideb y Cyngor.</p>	<p>I wneud y penderfyniad os yw'r Bwrdd Gweithredol -</p> <p>(a) o blaid penderfynu ar y mater yn groes i'r canlynol, neu heb fod yn gwbl unol â'r canlynol -</p> <p>(i) cyllideb y Cyngor (h.y. Llyfr y Gyllideb)</p> <p>neu</p> <p>(ii) y cynllun neu'r strategaeth yn y cyfamser, sy'n cael ei chymeradwyo neu ei mabwysiadu gan y Cyngor mewn perthynas â'u benthyciadau neu wariant cyfalaf, a</p> <p>(b) heb ei awdurdodi gan drefniadau gweithredol, heoliadau ariannol, gorchmynion sefydlog neu reolau neu weithdrefnau eraill y Cyngor, i wneud penderfyniad yn y termau hynny.</p>
<p>6 Penderfynu unrhyw fater wrth gyflawni swyddogaeth -</p> <p>(a) y'n gyfrifoldeb y Bwrdd Gweithredol; a</p> <p>(b) mewn perthynas â chynllun neu strategaeth (boed yn statudol neu'n anstatudol) a fabwysiadwyd neu a gymeradwywyd gan y Cyngor.</p>	<p>I wneud y penderfyniad os yw'n cyd-fynd â fframwaith polisi'r Cyngor (h.y. ar wahân i'r amgylchiadau a nodir yn y golofn nesaf). Fodd bynnag, gall y Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniadau sy'n groes i fframwaith y polisi, pan fo angen y penderfyniad fel mater o frys, cyn belled â'i fod yn cael ei wneud yn unol â Rheolau Fframwaith y Gyllideb a Pholisi, a nodir yn Adran 15 y Cyfansoddiad hwn.</p> <p><u>Dalier Sylw.</u> Bydd penderfyniad yn cyd-fynd â Fframwaith Polisi'r Cyngor os darperir ar ei gyfer yn unrhyw un o'r Cynlluniau a Strategaethau a restrir yn Adran 4 y Cyfansoddiad hwn.</p>	<p>I wneud y penderfyniad, os yw'r Bwrdd Gweithredol o blaid penderfynu ar y mater mewn termau sy'n groes i'r cynllun, neu, os yw'n berthnasol, i'r strategaeth a fabwysiadwyd neu a gymeradwywyd gan y Cyngor.</p>

Swyddogaeth	Rôl/Cyfrifoldeb y Bwrdd Gweithredu (a Swyddogion ble mae cyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo iddynt)	Rôl/Cyfrifoldeb y Cyngor
<p>7 Y swyddogaeth o wneud cais -</p> <p>(a) o dan isadran (5) adran 135 (rhaglenni ar gyfer gwaredu) o Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993; neu</p> <p>(b) o dan adran 32 (pŵer i waredu tir a ddelir at ddibenion Rhan II) neu adran 43 (caniatâd yn ofynnol ar gyfer rhai gwarediadau nad ydynt o fewn adran 32) Deddf Tai 1985.</p>	<p>Gwneud y cais.</p>	<p>Awdurdodi gwneud y cais.</p>
<p>8 Cyflawni swyddogaeth -</p> <p>(a) (yn ddarostyngedig i'r darpariaethau mewn perthynas â chyfrifo sylfaen treth y Cyngor yn Nhabl 1) gwneud cyfrifiad yn unol ag unrhyw un o adrannau 32 i 37, 43 i 49, 52I, 52J, 52T a 52U o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn wreiddiol neu drwy gyfrwng disodliad; neu</p> <p>(b) cyflwyno praesept o dan Bennod IV o'r Ddeddf honno.</p>	<p>(a) paratoi cyflwyno i'r Cyngor am eu hystyriaeth o -</p> <p>(i) amcangyfrifon o'r symiau sydd i'w hagregu wrth gyfrifo neu o symiau eraill sydd i'w defnyddio at ddibenion y cyfrifo;</p> <p>(ii) y symiau y mae'n ofynnol eu datgan yn y praesept.</p> <p>(b) ailystyried yr amcangyfrifon a'r symiau hynny yn unol â gofynion y Cyngor.</p> <p>(c) cyflwyno ar gyfer ystyriaeth y Cyngor o amcangyfrifon a symiau diwygiedig.</p>	<p>Unrhyw fater mewn cysylltiad â chyflawni'r swyddogaeth hon, heblaw am y materion hynny a nodwyd yn y golofn flaenorol fel cyfrifoldeb y Bwrdd Gweithredol.</p>